

Mawrth yr 17eg 1866 – Carnarvon Herald

DYNES WALLGOF YNG NGHYMRU

Yr wythnos yma bu cynnwrf yn yr ardal yn dilyn adroddiad fod yr enwog Harriet Haines, fu'n byw ar gopâu mynyddoedd Sir Gaernarfon gan fwyaf am y saith neu wyth mlynedd diwethaf, gan ennill y llysenw 'Y Ddynes Wyllt' wedi ei thywys i'r ddalfa ac yn wynebu treial yn y llys am ddwyn plentyn.

Ni wyddai trigolion yr ardal llawer am y carcharor, on i bai ei bod hi'n Wyddeles, ei bod yn treulio misoedd yr haf ar gopâon y mynyddoedd a'i bod yn mentro lawr i'r iseldiroedd yn ystod y nos i ddwyn ffrwythau a llysiau o'r perllannau ac i odro'r gwartheg y caeau gan ennill y rhan fwyaf o'i chynhaliaeth. Yn ystod y tywydd oer fe fu hi'n arfer mynd i dai anghysbell ar y mynyddoedd a chogio bod yn wallgof. Os oedd perchennog y tŷ yn digwydd bod yn wan neu'n hŷn, roedd hi'n mynnu yn gwbl ddigywilydd ei bod yn derbyn y bwyd gorau yn y tŷ ond roedd yn gofalu ei bod yn gadael y tŷ cyn i weddill y teulu ddychwelyd i'r tŷ.

I goroni ei haerllugrwydd, ddydd Mercher diwethaf bu iddi fynd i Dŷ Newydd, Dolwyddelan i gynhesu a hwnnw'n fore oer a gwlyb. Wrth iddi adael y tŷ, bu iddi gipio plentyn bach rhwng dwy a thair oed oedd yn chwarae wrth y drws, a'i gludo tua'r mynyddoedd gyda hi.

Yn ffodus, bu i'r Fam sylwi bod ei phlentyn ar goll yn syth ac aeth hi allan i ddod o hyd iddo gan lwyddo i ddal y diffynyddes oddeutu 200 llath o'r tŷ. Bu brwydr galed wrth i un frwydro am ei phlentyn a'r llall frwydro am ei hysglyfaeth. O'r diwedd bu'r fam yn fuddugoliaethus gan achub ei phlentyn. Cafod y manylion eu rhannu gyda'r heddlu a bu iddyn nhw restio'r ddynes y diwrnod hwnnw a'i chludo i'r celloedd yn Llanrwst lle mae hi mewn llety diogel.

Rhywsut fe lwyddodd Harriet Haines i osgoi ei threial a chafodd ei rhyddhau. Cafodd ei restio eto dwy flynedd yn ddiweddarach tra'r oedd yn dal yn byw yn wyllt yn y mynyddoedd. Cafodd ei chyhuddo o 'Grwydro tramor heb unrhyw fodd amlwg o gynnal ei hun,' cafodd ei dedfrydu i wneud un mis o lafur caled.



Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.